

Asesiad o'r Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb (AEDCh)

Asesiad Effaith integredig yw hwn sydd â'r nod o sicrhau bod Cyngor Dinas Casnewydd yn gwneud penderfyniadau sy'n deg, yn ystyried tystiolaeth berthnasol, ac yn ceisio sicrhau'r canlyniadau gorau i'n cymunedau. **Dylid defnyddio AEDCh i lywio camau cyntaf gwneud penderfyniadau, yn ystod y cam cysyniad, nid pan fo penderfyniad wedi ei wneud eisoes, neu ar y pwynt pryd na ellir dylanwadu arno.** Mae'r asesiad effaith hwn yn ystyried ein cyfrifoldebau deddfwriaethol o dan:

- Deddf Cydraddoldeb (2010), gan gynnwys y Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015
- Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011

Ni fwriedir i'r broses AEDCh atal penderfyniadau rhag cael eu gwneud, ond sicrhau ein bod wedi ystyried eu heffaith bosibl. Mae AEDCh hefyd yn ein helpu i ganolbwyntio ar sut y gallwn leihau unrhyw effeithiau negyddol, ac mae'n rhoi tystiolaeth i ni ein bod wedi cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol.

Am gymorth i gwblhau eich AEDCh, cysylltwch â'r [Tîm Cymunedau Cysylltiedig](#)

Beth yw ystyr Tegwch?

Mae Comisiwn Tegwch Casnewydd yn gorff annibynnol sy'n cynghori'r cyngor ar y defnydd gorau o adnoddau a phwerau i sicrhau'r canlyniadau tecaf i bobl leol. Mae'r Comisiwn Tegwch wedi sefydlu pedair o **Egwyddorion Tegwch** y dylid eu hystyried fel rhan o unrhyw benderfyniadau y mae'r cyngor yn eu gwneud – mae'r cwestiynau isod yn ddefnyddiol i'w hystyried cyn i chi ddechrau eich AEDCh.

Uniondeb	A yw pobl yn cael eu trin mewn ffordd gyson, tra'n cydnabod eu gwahaniaethau (er enghraifft, angen, rhwystrau rhag gallu cyrchu gwasanaethau)?
	A fydd y bwlch rhwng y rhai sydd â mwy, a'r rhai sydd â llai yn cael ei leihau?
	A ystyriwyd buddiannau gwahanol grwpiau (gan gynnwys cymunedau lleiafrifol neu ddifreintiedig)?
Blaenoriaeth	A yw anghenion y rhai mwyaf difreintiedig a bregus ar draws y ddinas wedi cael blaenoriaeth?
	A ydych wedi ystyried canlyniadau anuniongyrchol posibl i gymunedau lleiafrifol/difreintiedig pan fo blaenoriaethau eraill yn cyfeirio penderfyniadau?
Cynhwysiant	A fydd lleisiau pawb y mae eich penderfyniad yn effeithio arnynt yn cael eu clywed?
	A yw pobl yn gallu cymryd rhan a siapio gwasanaeth, yn ogystal â'i dderbyn?

	A ydych wedi ystyried effaith eich penderfyniad ar y berthynas rhwng cymunedau, a'r manau y maent yn eu rhannu?
Cyfathrebu	A yw penderfyniadau'n cael eu gwneud yn dryloyw ac yn gyson?
	Sut y caiff penderfyniadau eu cyfathrebu i bobl a gaiff eu heffeithio mewn ffordd glir, gyda'r cyfle am adborth?

Rhan 1: Adnabod

Enw'r person sy'n cwblhau'r AEDCh	Kirsty Jones
Rôl y person sy'n cwblhau'r AEDCh	Swyddog Trawsnewid Addysg
Dyddiad cwblhau	27/08/2021
Pennaeth Gwasanaeth sydd wedi cymeradwyo'r AEDCh hwn	Sarah Morgan

1. Beth sy'n cael ei asesu? *(Cliciwch ddwywaith ar y blwch(blychau) perthnasol (X) a dewiswch 'checked' fel y bo'n briodol)*

- Polisiâu, arferion neu weithdrefnau newydd neu ddiwygiedig (sy'n addasu darparu gwasanaethau neu arferion cyflogaeth)
- Adolygu gwasanaeth neu ad-drefnu cynigion sy'n effeithio ar y gymuned a/neu staff
- Cynigion effeithlonrwydd neu arbed
- Pennu dyraniadau cyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol newydd a chynllunio ariannol strategol
- Penderfyniadau sy'n effeithio ar ddefnyddwyr gwasanaeth, cyflogeion neu'r gymuned ehangach gan gynnwys comisiynu (dad gomisiynu) neu ddiwygio gwasanaethau
- Cynigion prosiect newydd sy'n effeithio ar staff, cymunedau neu fynediad i'r amgylchedd adeiledig
- Digwyddiadau cyhoeddus
- Gweithredu Strategaeth/Cynlluniau/Deddfwriaeth Genedlaethol yn lleol
- Cyfarwyddeb a bwriad strategol, gan gynnwys y rhai a ddatblygwyd mewn Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cynlluniau tymor canolig i hir (er enghraifft, cynlluniau corfforaethol, cynlluniau datblygu, cynlluniau darparu gwasanaethau a chynlluniau gwella)

- Pennu amcanion (er enghraifft, amcanion llesiant, amcanion cydraddoldeb, strategaeth y Gymraeg)
- Penderfyniadau caffael a chomisiynu mawr
- Penderfyniadau sy'n effeithio ar allu (gan gynnwys partneriaid allanol) i gynnig cyfleoedd a gwasanaethau Cymraeg
- Arall *esboniwch yn y blwch isod:*

2. Disgrifiwch nodau, amcanion a chanlyniadau arfaethedig cyffredinol eich penderfyniad

Y penderfyniad ar hyn o bryd yw ymgynghori ar Gynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) *drafft* Cyngor Dinas Casnewydd dros gyfnod ymgynghori o 8 wythnos yn ystod tymor yr hydref. Ni fydd penderfyniad i fabwysiadu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i'w gyflwyno i Lywodraeth Cymru yn cael ei wneud tan ar ôl y cyfnod ymgynghori.

Mae *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019* yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol **osod targed deng mlynedd** yn amlinellu'r cynnydd disgwylidig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn ardal yr awdurdod lleol yn ystod oes Cynllun.

Mae adran 84 Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol baratoi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac mae'n amlinellu bod yn rhaid i Gynllun gynnwys:

- a. Cynigion awdurdod lleol ynghylch sut y bydd yn cynnal ei swyddogaethau addysg i:
 - i. Wella cynllunio darpariaeth addysg Gymraeg (addysg cyfrwng Cymraeg) yn ei ardal;
 - ii. Gwella safonau addysg Gymraeg a safonau addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ei ardal;
- b. Targedau'r awdurdod lleol o ran gwella'r gwaith o gynllunio darpariaeth addysg Gymraeg yn ei ardal a gwella safonau'r addysg hwnnw a safonau addysgu'r Gymraeg fel pwnc yn ei ardal;
- c. Adrodd ar y cynnydd a wnaed i fwrw targedau'r Cynllun blaenorol neu'r Cynllun diwygiedig blaenorol.

Mae adran 85 Deddf 2013 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol gyflwyno ei Gynllun i Weinidogion Cymru i'w gymeradwyo.

Gosododd Llywodraeth Cymru dargedau rhagnodedig a gosod awdurdodau lleol mewn grwpiau yn seiliedig ar eu canran bresennol o ddisgyblion a gaiff eu dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi'i osod yng ngrŵp 4 ac felly mae angen cynnydd o 6 phwynt canran o leiaf, a amlinellir yn y tabl isod. Mae rhif targed 2032 yn seiliedig ar ein carfan bresennol:

Blwyddyn CYBLD	Carfan	Canran y garfan	Nifer y Disgyblion Blwyddyn 1
Gwaelodlin 2021	1988	5.1	101
Targed 2032	1988	11.1	221

3. Pwy yw'r prif randdeiliaid a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad a pha ddata sydd gennych arnynt? Ystyried cymunedau o ran lle (pobl sy'n byw yn yr un ardal ddaeryddol) a chymunedau o ddiddordeb (pobl sy'n rhannu nodweddion penodol ond a all fyw mewn gwahanol ardaloedd daeryddol). Gall rhanddeiliaid gynnwys preswylwyr, busnesau lleol, grwpiau cymunedol, staff neu bartneriaid.

Pennir y prif randdeiliaid gan ganllawiau Llywodraeth Cymru ac maent fel a ganlyn:

a) awdurdodau lleol cyfagos;

b) penaethiaid pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;

c) cyrff llywodraethu pob ysgol a gynhelir gan yr awdurdod;

ch) holl sefydliadau'r sector addysg bellach yn yr ardal;

d) o ran unrhyw ysgol sefydledig neu ysgol wirfoddol yn yr ardal –

i. y person sy'n gyfrifol am benodi llywodraethwyr

ii. os oes gan yr ysgol hunaniaeth grefyddol, y corff crefyddol perthnasol;

dd) Comisiynydd y Gymraeg (yn yr ystyr a geir yn adran 2 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011);

e) Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (yn yr ystyr a geir yn "Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant" yn adran 119 Deddf 1998);

f) Swyddfa Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru;

g) darparwyr hyfforddiant cychwynol athrawon ysgol;

ng) sefydliadau o'r math sy'n darparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc y mae'r awdurdod lleol yn ystyried eu bod yn briodol; a

h) unrhyw bersonau neu gyrff eraill y mae'n ymddangos i'r awdurdod lleol eu bod yn briodol.

Bydd yr awdurdod lleol hefyd yn cyhoeddi'r ddogfen ar ei wefan i annog aelodau'r cyhoedd i gyfrannu sylwadau i'r ymgynghoriad. I gyrraedd y rhai sydd wedi'u hallgáu'n ddigidol, bydd nifer fach o gopïau papur ar gael mewn amrywiaeth o leoliadau ledled y ddinas. Bydd rhanddeiliaid hefyd yn rhieni ysgol presennol yng Nghasnewydd a'r rhieni hynny yn y dyfodol. Er mwyn cyrraedd y grwpiau hyn gellir dosbarthu'r ymgynghoriad drwy ysgolion a lleoliadau blynyddoedd cynnar. Bydd y bwrdd iechyd yn allweddol wrth gyrraedd rhieni newydd.

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), rhoddwyd pob cyfle i aelodau Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) Casnewydd gyfrannu at lunio ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddatblygu addysg Gymraeg ledled Casnewydd, a bodloni'r targedau a nodir yn Cymraeg 2050. Mae'r aelodau'n cynnwys:

- Swyddogion o Gyngor Dinas Casnewydd
- Nid yw'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at effaith gronol – bydd yr holl ganlyniadau'n gadarnhaol.
- Mudiad Meithrin
- Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG)
- Urdd Gobaith Cymru
- Menter Iaith Casnewydd
- Y Gwasanaeth Cyflawni Addysg ar gyfer de-ddwyrain Cymru
- Coleg Gwent
- Prifysgol De Cymru
- Llywodraeth Cymru

Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yn allweddol wrth sicrhau y gellir cyflawni'r targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y cynllun hwn, a bod yna berchnogaeth a rennir ymhlith yr Awdurdod Lleol a phartneriaid felly o ran cyflawni'r cynllun hwn.

Rhan 2: Ymgysylltu

Wrth gwblhau'r adran hon, mae angen i chi ystyried a oes gennych ddigon o wybodaeth am farn a phrofiadau pobl y bydd eich penderfyniad yn effeithio arnynt. Os na wnewch hynny, efallai y bydd angen i chi ymgymryd â chyfnod o ymgysylltu/ymgyngori cyn parhau. Mae AEDCh yn ddogfen fyw, felly gellir ei diweddarau gyda chanfyddiadau'r ymgynghoriad, a'i diwygio yn ôl yr angen yn ystod y broses o wneud penderfyniadau.

Mae gan y cyngor ddyletswydd i ymgynghori ac ymgysylltu â phobl a allai brofi anghydraddoldebau o ganlyniad i'ch penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys pobl **sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig** (oedran, anabled, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol) a phobl sydd â **phrofiad bywyd o anfantais economaidd-gymdeithasol**. Mae Addewid Ieuenctid y cyngor hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni sicrhau y **gwrandewir ar bob person ifanc yng Nghasnewydd a'u cynnwys mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnynt**.

Mae gan y cyngor ddyletswydd hefyd i sicrhau bod unrhyw ymgynghoriad ar gael yn ddwyieithog (yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg), ac efallai yr hoffech ystyried unrhyw ieithoedd cymunedol eraill a siaredir gan bobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad. Isod ceir rhai cwestiynau y dylid eu cynnwys mewn unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus sy'n ymwneud â phenderfyniad a allai effeithio ar y defnydd o'r Gymraeg yng Nghasnewydd:

1. A ydych chi'n credu y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg?
2. Os ydych o'r farn y caiff effaith negyddol, pa gamau y gallem eu cymryd i leihau neu osgoi hyn a gwella'r effeithiau cadarnhaol?
3. A ydych yn credu y bydd y penderfyniad/polisi arfaethedig yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

1. Sut ydych chi wedi ymgysylltu â phobl a allai gael eu heffeithio gan eich penderfyniad (y rhanddeiliaid rydych chi wedi'u nodi)?

Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), rhoddwyd pob cyfle i aelodau Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) Casnewydd gyfrannu at lunio ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddatblygu addysg Gymraeg ledled Casnewydd, a bodloni'r targedau a nodir yn Cymraeg 2050. Mae'r Fforwm yn allweddol wrth sicrhau y gellir cyflawni'r targedau uchelgeisiol a amlinellir yn y cynllun hwn, ac mae yna berchnogaeth a rennir ymhlith yr Awdurdod Lleol a phartneriaid felly o ran cyflawni'r cynllun hwn. Datblygwyd y CSCA yr ymgynghorir arno drwy i grŵp llywio Cyngor Dinas Casnewydd gynnal nifer o weithdai gyda'r Fforwm a rhanddeiliaid ehangach. Rhannwyd meysydd deilliannau'r CSCA i bedwar grŵp a mynychodd y rhai ag arbenigedd perthnasol y gweithdai penodol hynny. O ddatblygiad cychwynnol yn y gweithdai hyn, lluniwyd cynllun drafft. Rhannwyd y drafft gyda'r Fforwm er mwyn derbyn sylwadau ym mis Gorffennaf a gwnaed newidiadau er mwyn llunio'r ddogfen bresennol ar gyfer ymgynghori.

Mae'r cyfnod ymgynghori hwn yn rhoi cyfle i rhanddeiliaid ac aelodau o'r cyhoedd a nodwyd wneud sylwadau ar y cynllun drafft. Gall aelodau'r Fforwm roi mewnbyn pellach ar y cam hwn. Bydd yr ymgynghoriad yn para 8 wythnos, sef y cyfnod amser y mae Llywodraeth Cymru wedi rhoi arweiniad yn ei gylch. Bydd rhanddeiliad a nodwyd yn cael gwybod am yr ymgynghoriad drwy e-bost gyda'r wybodaeth berthnasol ynghlwm. Bydd yr ymgynghoriad hefyd yn cael ei lansio ar wefan Cyngor Dinas Casnewydd. Gellir gwneud ymatebion drwy e-bostio school.reorg@newport.gov.uk neu'n ysgrifenedig at Swyddog Trawsnewid Addysg, Ystafell 425w, Y Ganolfan Ddinesig, Godfrey Road, Casnewydd, NP20 4UR.

Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, bydd yr ymatebion yn llywio unrhyw newidiadau a wneir i'r Cynllun. Gofynnir i'r Fforwm Addysg Gymraeg am sylwadau terfynol ar y cynllun drafft yn ystod mis Tachwedd 2021. Ar ddiwedd tymor yr hydref 2021, bydd y Cynllun yn cael ei gymryd i Gabinet y Cyngor i'w gymeradwyo. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno'r cynllun yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru yw cyn 31 Ionawr 2022. Yn dilyn hyn, gall Gweinidogion Cymru:

- gymeradwyo'r Cynllun fel y'i cyflwynwyd,
- cymeradwyo'r Cynllun gydag addasiadau, neu
- gwrthod y Cynllun a pharatoi Cynllun arall sydd i'w drin fel Cynllun cymeradwy'r awdurdod

Bydd y cynllun a gymeradwywyd yn rhedeg o fis Medi 2022 tan fis Awst 2032.

2. Beth ydych chi'n ei wybod am farn neu brofiadau pobl y gallai eich penderfyniad effeithio arnynt?

Mae Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd yn rhannu ystod eang o brofiadau a safbwyntiau cadarnhaol yn ymwneud â'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg. Mae'r aelodau'n wybodus ac yn brofiadol ym mhob agwedd ar addysg a chymorth cyfrwng Cymraeg ledled y ddinas. Mae gan randdeiliaid fel Coleg Gwent a Phrifysgol De Cymru y profiad o hyfforddi gweithlu'r dyfodol er mwyn helpu i ddatblygu addysg Gymraeg.

Mae'r cynllun yn cynnwys agor Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli sy'n agor ar egin safle yng Nghaerllion a bydd yn symud i'w safle parhaol ym Mhilgwenlli. Yn ôl proffil ward Casnewydd yn 2015 ar gyfer Caerllion, gall 9.8% o bobl siarad Cymraeg sy'n uwch na chyfartaledd Casnewydd o 9.3% ond sydd lawer is na chyfartaledd Cymru o 19%. Yn ward Pilgwenlli, mae 88.0% o bobl nad oes ganddynt sgiliau yn y Gymraeg sy'n uwch na chyfartaledd Casnewydd o 87.3% a chyfartaledd Cymru o 73.9%.

Mae proffiliau ward ar gyfer pob ward ledled Casnewydd ar gael o ran gwybodaeth am y rhai y mae'r cynllun yn effeithio arnynt lle bo angen.

Caiff yr adran hon ei diweddarau yn dilyn canlyniadau'r ymgynghoriad.

Rhan 3: Asesu

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i chi asesu effaith bosibl eich penderfyniad ar amrywiaeth o grwpiau a allai brofi anfanteision penodol. Dylai eich asesiad gael ei gefnogi gan dystiolaeth – naill ai o'ch ymgysylltiad/ymgyngoriad eich hun, ymgysylltu tebyg neu flaenorol, yr hyn yr ydych eisoes yn ei wybod am y bobl sy'n defnyddio'ch gwasanaeth, neu o ffynonellau gwybodaeth lleol a chenedlaethol.

Mae dogfennau defnyddiol sy'n nodi gwybodaeth am sut mae anghydraddoldebau yn effeithio ar gymunedau yn cynnwys [Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol – A yw Cymru'n Decach?](#) ac [Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned COVID-19](#) gan y cyngor. Efallai y bydd eich penderfyniad yn cael effeithiau cadarnhaol a negyddol – os felly, rhowch groes yn y ddau flwch.

1. Effaith ar bobl sy'n rhannu Nodweddion Gwarchodedig

Caiff [Nodweddion Gwarchodedig](#) eu diffinio o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, a disgrifiant grwpiau o bobl sy'n cael eu hamddiffyn rhag gwahaniaethu, naill ai yn y gweithle, neu drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau. Rhaid i'r cyngor ystyried sut y gallai penderfyniadau effeithio ar bobl yn wahanol oherwydd nodwedd warchodedig, a sut y gellid lleihau unrhyw effaith negyddol. Gellir dod o hyd i ganllawiau cenedlaethol ar asesu effeithiau cydraddoldeb a Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus [yma](#). Gallwch hefyd gael cyngor pellach ac enghreifftiau o effeithiau cadarnhaol a negyddol [yma](#).

Nodwedd Warchodedig	Effaith:			Rhowch ragor o fanylion am natur yr effaith yn yr adrannau isod, gan ystyried Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus fod yn rhaid i'r cyngor: <ol style="list-style-type: none">Hyrwyddo cyfle cyfartal ar draws gwahanol grwpiauHyrwyddo cydlyniant cymunedolHelpu i gael gwared ar wahaniaethu/aflonyddu/erlid yn anghyfreithlon?
	Cadarnhaol	Negyddol	Nid y naill na'r llall	
Oedran	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Bydd y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn cael effaith gadarnhaol ar y nodwedd warchodedig hon drwy ddarparu mwy o ddewis a chyfleoedd mewn addysg a chyflogaeth i bobl o bob oed.
Anabledd	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Mae Deilliant 6 y CSCA yn benodol yn cynnwys strategaethau a chynlluniau perthnasol i gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sy'n mynychu neu a fydd yn mynychu addysg Gymraeg.

Ailbennu Rhywedd / Trawsryweddol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.
Priodas neu bartneriaeth sifil	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.
Beichiogrwydd neu famolaeth	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.
Hil	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Ar hyn o bryd, mae plant o gymunedau lleiafrifoedd ethnig wedi eu tangynrychioli mewn addysg cyfrwng Cymraeg o'i gymharu ag addysg cyfrwng Saesneg. Yn ystod cyfnod y cynllun bydd Ysgol Gymraeg Nant Gwenlli (YGNG) yn symud i'w lleoliad parhaol yn ardal Pilgwenlli yng Nghasnewydd. Mae Pilgwenlli yn ardal ethnig amrywiol yng Nghasnewydd felly y gobaith yw y bydd YGNG yn cynyddu'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg mewn cymunedau Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.
Crefydd neu Gred neu ddiffyg cred	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.
Rhywedd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.
Cyfeiriadedd Rhywiol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	Nid oes unrhyw dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd y cynnig yn cael effaith anghymesur ar bobl sy'n rhannu'r Nodwedd Warchoddedig hon.

2. Effaith ar y Gymraeg

Mae Mesur y Gymraeg (Cymru) yn nodi bod yn rhaid i'r cyngor ystyried yr effeithiau (cadarnhaol a negyddol) ar y Gymraeg ar gyfer pob penderfyniad polisi. Am arweiniad pellach ar ystyriaethau'r Gymraeg gweler [yma](#).

	Effaith:			
	Cadarnhaol	Negyddol	Nid y naill na'r llall	
Y Gymraeg	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<p>Mae'r cynllun yn cael effaith gadarnhaol uniongyrchol ar y Gymraeg. Mae'r Cynllun yn ymrwmo i gynyddu nifer y disgyblion sydd mewn addysg Gymraeg yng Nghasnewydd. Caiff hyn ei fesur yn gyffredinol yn ôl dysgwyr blwyddyn 1. Nod y cynllun yw cynyddu 6 phwynt canran ar nifer y dysgwyr blwyddyn 1. Mae'r CSCA yn ymrwmo i gael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg ar draws 7 deilliant drwy:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Gynyddu nifer y plant meithrin/plant tair oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Deilliant 1) • Cynyddu nifer y plant dosbarth derbyn/plant pump oed sy'n cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg (Deilliant 2) • Cynyddu nifer y plant sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cam o'u haddysg statudol i'r llall (Deilliant 3) • Cynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau asesedig mewn Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg (Deilliant 4) • Cynyddu nifer y cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol (Deilliant 5) • Cynnydd yn narpariaeth addysg Gymraeg i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (Deilliant 6) • Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg (Deilliant 7)

	Effaith:			
	Cadarnhaol	Negyddol	Nid y naill na'r llall	




1. Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn siaradwyr Cymraeg yng Nghasnewydd.



Wrth ddatblygu'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA), rhoddwyd pob cyfle i aelodau Fforwm Addysg Gymraeg Casnewydd gyfrannu at lunio ymrwymiad parhaus y Cyngor i ddatblygu addysg Gymraeg ledled Casnewydd. Mae cyfran fawr o siaradwyr Cymraeg yn aelodau o'r Fforwm sydd wedi cymryd rhan lawn yn rhannu eu barn.

Bydd yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal yn ddwyieithog a'i rannu gyda phob ysgol sy'n cynnwys ysgolion Cymraeg. Mae rhanddeiliaid hefyd yn cynnwys sefydliadau sy'n siarad Cymraeg a fydd yn casglu barn siaradwyr Cymraeg ledled Casnewydd.

3. Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith sy'n helpu sefydliadau i ystyried yr effaith y gallent ei chael ar bobl sy'n byw yng Nghymru yn y dyfodol, a sicrhau eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â heriau hirdymor. Isod, ystyriwch sut mae eich penderfyniad yn hyrwyddo, yn datblygu, neu'n gwrth-ddweud y [5 ffordd o weithio](#) sy'n sail i'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Gallwch weld canllawiau pellach ar ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy [yma](#).

<p>Yn yr Hirdymor</p> 	<p><i>Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byrdymor â'r angen i ddiogelu'r gallu i fodloni anghenion hirdymor hefyd.</i></p>	<p>Mae'r cynllun yn cwmpasu rhychwant o 10 mlynedd. Mae'n darparu ffocws a thargedau penodol ar draws 7 maes deiliant gan ystyried y sefyllfa bresennol a chan edrych ymlaen at dargedau a deilliannau wedi 5 mlynedd a 10 mlynedd i'r dyfodol. Bydd y cynllun yn parhau i gefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cymru o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 (Cymraeg 2050).</p>
<p>Atal</p> 	<p><i>Neilltuo adnoddau i atal problemau rhag digwydd neu waethgu</i></p>	<p>Bydd cynnydd y cynllun yn destun adolygiadau blynyddol. Bydd hyn yn sicrhau llwybr clir tuag at ddiwedd y cynllun ac ymhellach. Bydd yr adolygiad yn sicrhau bod mesurau lliniaru'n cael eu datblygu er mwyn osgoi symud oddi wrth y targedau ymhellach ar hyd y daith. Bydd gweithredu'r CSCA yn helpu i sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol er mwyn galluogi twf.</p>
<p>Integreiddio</p> 	<p><i>Ystyried sut y gall amcanion llesiant cyrff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.</i></p>	<p>Bydd y cynllun yn cael effaith gadarnhaol ar y nodau llesiant ar gyfer Cymru ac amcanion llesiant Casnewydd. Bydd y cynllun yn sicrhau Cymru lewyrchus lle bydd poblogaeth a addysgir yn ddwyieithog yn cael ei datblygu a fydd yn arwain at gyfleoedd cyflogaeth sy'n caniatáu i bobl ffynnu drwy eu gwaith. Bydd y cynllun yn sicrhau Cymru fwy cyfartal, gan ganiatáu i deuluoedd o unrhyw gefndir gael cyfleoedd cynyddol drwy ddewis o ran iaith addysg eu plentyn. Drwy ehangu'r ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn nifer o gymunedau yn y cynllun, bydd cymunedau'n cael eu cysylltu drwy eu dewisiadau addysg. Bydd y cynllun yn hyrwyddo ac yn diogelu diwylliant a threftadaeth Cymru yn ogystal â'r Gymraeg, a bydd hyn yn annog pobl i gymryd rhan yn y traddodiadau Cymreig fel y celfyddydau, chwaraeon a hamdden. Mae'r cynllun yn cymryd cyfrifoldeb</p>

		dros wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru a fydd yn ei dro yn cyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.
Cydweithio 	<i>Cydweithio i gyflawni amcanion</i>	Mae partneriaeth â rhanddeiliaid allweddol yn hanfodol i gyflawni'r CSCA. Mae'r Fforwm Addysg Gymraeg yng Nghasnewydd yn ofyniad ond mae adborth yr aelodau ar y CSCA wedi bod yn hollbwysig wrth ei lunio. Bydd y partneriaid hyn hefyd yn sicrhau bod yr amcanion a nodir yn y Cynllun yn cael eu cyflawni.
Cynnwys Pobl 	<i>Cynnwys y rhai sydd â diddordeb a cheisio eu barn - gan sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal.</i>	Cynhelir cyfarfodydd gyda'r Fforwm bob chwarter ac fe'u cadeirir gan y Prif Swyddog Addysg. Mae aelodau'r Fforwm hefyd yn cymryd rhan, o ddydd i ddydd wrth gyflawni'r amcanion a nodir yn y Cynllun. Mae'r cyfnod ymgynghori ac ymgysylltu cyn mabwysiadu'r CSCA yn rhoi cyfle i'r gymuned ehangach fod yn rhan o'r broses.

4. Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol

Mae'r [Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol](#) wedi'i nodi yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r cyngor, wrth wneud penderfyniadau strategol, roi sylw dyledus i'r angen i leihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau sy'n deillio o anfantais economaidd-gymdeithasol. Teimlir bod anghydraddoldebau o ran canlyniadau yn cael eu teimlo'n fwyaf difrifol mewn meysydd fel iechyd, addysg, gwaith, safonau byw, cyfiawnder a diogelwch personol, a chyfranogiad.

Diffinnir 'penderfyniad strategol' gan Lywodraeth Cymru fel penderfyniad **sy'n effeithio ar sut mae'r cyngor yn cyflawni ei ddiben statudol dros gyfnod sylweddol o amser ac nad yw'n cynnwys penderfyniadau 'o ddydd i ddydd' arferol**. Mae penderfyniadau strategol yn cynnwys:

- Cynlluniau Corfforaethol
- Pennu amcanion strategol llesiant, cydraddoldeb ac amcanion eraill
- Newidiadau i wasanaethau cyhoeddus, neu eu datblygu
- Cynllunio ariannol strategol
- Datblygu polisiau strategol

Os nad ydych yn credu bod eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad hwn, ac nad ydych yn bwriadu cynnal Aseiad Dyletswydd Economaidd-Gymdeithasol yn yr adran hon, rhowch eich rhesymeg isod. Bydd unrhyw benderfyniad a gyflwynir i Aelod Cabinet, yn y Cabinet neu'r Cyngor, yn cael ei ystyried yn benderfyniad strategol.

Os yw eich penderfyniad yn bodloni'r diffiniad, ystyriwch effaith eich penderfyniad ar y grwpiau dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol a geir yn y matrices isod. Nid yw'r grwpiau a restrir yn gynhwysfawr a dylech ystyried unrhyw grwpiau ychwanegol sy'n berthnasol i'ch penderfyniad a allai brofi anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffyrdd canlynol:

- **Incwm Isel/Tlodi Incwm** - yn methu fforddio cynnal taliadau rheolaidd fel biliau, bwyd, dillad, trafndiaeth ac ati.
- **Isel a/neu ddim Cyfoeth** - digon o arian i dalu costau byw sylfaenol a thalu biliau ond nid oes ganddynt unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl ac nid oes unrhyw ddarpariaethau ar gyfer y dyfodol

- **Amddifadedd Materol** - methu â chael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, trwsio/disodli nwyddau trydanol sydd wedi torri, cartref cynnes, hobiau ac ati)
- **Amddifadedd Ardal** - lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (hygyrchedd trafndiaeth gyhoeddus)
- Cefndir Economaidd-Gymdeithasol – er enghraifft, addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni

Nodwch effaith gadarnhaol neu negyddol, neu'r ddau lle maent yn gymwys, a difrifoldeb yr effaith hon drwy godio rhannau'r grid yn seiliedig ar yr isod. *Os nad oes effaith/neu ei fod yn niwtral, gadewch yn wag.*

Effaith Negyddol		Effaith Gadarnhaol	
N1	Effaith negyddol – ysgafn	P1	Effaith gadarnhaol – ysgafn
N2	Effaith negyddol – cymedrol	P2	Effaith gadarnhaol – cymedrol
N3	Effaith negyddol – sylweddol	P3	Effaith gadarnhaol – sylweddol
N4	Potensial ar gyfer effaith negyddol (ond yn ansicr)	P4	Potensial ar gyfer effaith gadarnhaol (ond yn ansicr)

Meysydd anghydraddoldeb a allai godi o anfantais economaidd-gymdeithasol – diffiniadau							
Addysg :Y gallu i fod yn wybodus, i ddeall a rhesymu, ac i gael y sgiliau a'r cyfle i gymryd rhan yn y farchnad lafur ac mewn cymdeithas							
Gwaith :Y gallu i weithio mewn amodau cyfiawn a ffafriol, i gydnabod gwerth eich gwaith, hyd yn oed os nad yw'n ddi-dâl, i beidio â chael ei atal rhag gweithio ac i fod yn rhydd o gaethwasiaeth, llafur gorfodol a mathau eraill o gamfanteisio							
Safonau Byw : Y gallu i fwynhau safon byw gyfforddus, mewn tai priodol, gydag annibyniaeth a diogelwch, ac i gael gofal a chefnogaeth pan fo angen.							
Cyfiawnder, Diogelwch Personol a Diogelwch Cymunedol : Y gallu i osgoi marwolaethau cynamserol, byw mewn diogelwch, a gwybod y cewch eich diogelu a'ch trin yn deg gan y gyfraith							
Iechyd : Y gallu i fod yn iach, yn gorfforol ac yn feddyliol, bod yn rhydd mewn materion sy'n ymwneud â pherthnasoedd rhywiol ac atgenhedlu, a chael ymreolaeth dros ofal a thriniaeth a chael gofal yng nghamau olaf eich bywyd							
Cyfranogiad : Y gallu i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau ac mewn cymunedau, cael mynediad at wasanaethau, gwybod y caiff eich preifatrwydd ei barchu, a mynegi eich hun							
Grwpiau		Meysydd anghydraddoldeb					
	Safonau Byw	Gwaith	Iechyd	Addysg	Cyfiawnder a diogelwch cymunedol	Cyfranogi	Amgylchedd ffisegol
Plant sy'n byw mewn tlodi	P4			P2		P1	
Aelwydydd incwm isel heb blant dibynnol		P1		P2		P1	
Pobl ifanc ddi-waith		P1		P2		P1	

Di-waith am gyfnod hir?		P1		P2		P1	
Aelwydydd digartref						P1	
Ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches	P4			P2		P1	
Cymdogaethau difreintiedig - Safle MALIC yn y 10% isaf o'r ACEHI mwyaf difreintiedig				P2		P1	
Pobl ar Gredyd Cynhwysol / budd-daliadau sy'n gysylltiedig ag incwm		P1		P2		P1	
Oedolion heb gymwysterau neu gymwysterau isel		P1		P1		P1	
Pobl sy'n byw mewn tai o ansawdd isel neu mewn Tai Amfeddiannaeth						P1	

1. Pa dystiolaeth sydd gennych am anfantais economaidd-gymdeithasol ac anghydraddoldebau o ran deilliannau yn ymwneud â'r penderfyniad hwn?

Rhagwelir y bydd y cynllun yn lleihau anghydraddoldebau o ran canlyniadau i nifer o grwpiau sy'n debygol o brofi anfantais economaidd-gymdeithasol yn erbyn nifer o feysydd.

Fel cynllun 'Addysg', bydd yn lleihau anghydraddoldebau posibl o ran canlyniadau mewn addysg drwy gynyddu dewis a gwella safonau. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodau llesiant Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal a'r amcan llesiant i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth.

Bydd y cynllun yn lleihau anghydraddoldebau posibl o ran cymryd rhan drwy gynyddu dewis a darparu mwy o gyfleoedd lleol i ddysgu ac ymgysylltu â'r Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodau llesiant Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu a Chymru o gymunedau cydlynol ac amcanion llesiant i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth ac i adeiladu cymunedau cydlynol a chynaliadwy.

Bydd y cynllun yn lleihau anghydraddoldebau posibl o ran safonau byw drwy annog cymuned ffyniannus o siaradwyr Gymraeg. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodau llesiant a Chymru o gymunedau cydlynol a Chymru â diwylliant bywiog lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu ac amcanion llesiant i alluogi pobl i fod yn iach, yn annibynnol ac yn wydn.

Bydd y cynllun yn lleihau anghydraddoldebau posibl o ran canlyniadau o ran gwaith drwy roi sgiliau dwyieithog i'r genhedlaeth nesaf i wella cyfleoedd gwaith yn y sector cyhoeddus. Bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar nodau llesiant Cymru lewyrchus a Chymru fwy cyfartal ac amcanion llesiant i wella sgiliau, canlyniadau addysgol a chyfleoedd cyflogaeth ac i hyrwyddo twf economaidd ac adfywiad tra'n amddiffyn yr amgylchedd.

2. Disgrifiwch sut rydych wedi sicrhau bod eich ymgysylltiad wedi ystyried barn pobl sy'n byw yng Nghasnewydd sy'n cael eu heffeithio gan anfantais economaidd-gymdeithasol.

Bydd yr ymgynghoriad ar gael i bob grŵp ledled Casnewydd. Bydd fersiynau o'r ddogfen ar gael ar ffurf y fersiwn lawn, crynodeb gweithredol, fersiwn gryno a fersiwn hawdd ei darllen. Bydd y dogfennau hyn ar gael yn ddigidol ac ar ffurf papur ar amrywiaeth o lwyfannau digidol ar-lein a lleoliadau ledled y ddinas. Bydd hyn yn galluogi pobl o bob grŵp i gyrchu'r ymgynghoriad.

3. A yw'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at effaith gronol?

Nid yw'r penderfyniad hwn yn cyfrannu at effaith gronol – bydd yr holl ganlyniadau'n gadarnhaol.

Rhan 3: Camau Gweithredu a Chanlyniadau

O ystyried unrhyw effeithiau negyddol yr ydych wedi'u nodi, nodwch isod sut y byddwch yn lleihau'r rhain, a sut y byddwch yn monitro effaith bosibl. Mae rhagor o ganllawiau ar sut i gwblhau eich cynllun gweithredu ar gael [yma](#).

EFAITH AR BOBL SY'N RHANNU NODWEDDION GWARCHODEDIG			
Crynodeb o'r effaith	Camau i leihau effaith negyddol	Sut y caiff yr effaith hon ei monitro	Perchennog
EFAITH AR Y GYMRAEG			
Crynodeb o'r effaith	Camau i leihau effaith negyddol	Sut y caiff yr effaith hon ei monitro	Perchennog

EFFEITHIAU ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL			
Crynodeb o'r effaith	Camau i leihau effaith negyddol	Sut y caiff yr effaith hon ei monitro	Perchennog
EGWYDDOR DATBLYGU CYNALIADWY			
Crynodeb o'r effaith	Camau i leihau effaith negyddol	Sut y caiff yr effaith hon ei monitro	Perchennog

Unwaith y bydd eich AEDCh wedi'i gwblhau, anfonwch ymlaen at ncequality@newport.gov.uk